Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Coflyfr

Y Cod Ymddygiad

Rhifyn 10 Hydref 2016

Cynnwys

Dim tystiolaeth o dor-amod	3
Nid oes angen gweithredu	5
Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau	7
Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru	8
Mwy o Wybodaeth	9

Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Gorffennaf i Fedi 2016, ond hefyd yn cynnwys crynodebau achosion henach, ble mae grandawiadau pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru wedi ei gynnal yn ystod y cyfnod yma.

Crynodebau Achosion

Dim tystiolaeth o dor-amod

Cyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy
Achos Rhif 201601530 - Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Awst 2016

Cwynodd aelod o'r cyhoedd fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Magwyr gyda Gwndy ("y Cyngor") wedi ysgrifennu at y Cyngor i ofyn a gâi ei gynrychioli ar bwyllgorau allanol. Ar yr adeg pan ysgrifennodd at y Cyngor roedd wedi'i wahardd rhag ymgymryd â dyletswyddau'r Cyngor, yn dilyn dyfarniad Panel Dyfarnu Cymru (PDC), ei fod wedi torri'r Cod Ymddygiad yn flaenorol. Dywedodd yr achwynydd nad oedd y Cynghorydd wedi talu sylw i benderfyniad PDC a'i fod wedi dwyn anfri ar ei Swydd ac ar yr Awdurdod.

Canfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorydd wedi ysgrifennu llythyr at y Cyngor ond ei fod wedi datgan yn eglur mai ei fwriad oedd gwasanaethu ar y pwyllgorau hynny pan fyddai wedi dychwelyd at ei ddyletswyddau ar ôl y gwaharddiad. Nid oedd dim tystiolaeth i awgrymu ei fod wedi ceisio ymgymryd â dyletswyddau'r Cyngor tra'r oedd wedi'i wahardd. Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd dim tystiolaeth fod y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

Cyngor Sir y Fflint – Dyletswydd i gynnal y gyfraith
Achos Rhif 201501526 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Awst 2016

Cwynodd Mr A y gallai aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Sir y Fflint ("y Cyngor") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau trwy geisio cael arian ganddo'n gyfnewid am gefnogi ei geisiadau cynllunio. Dywedodd Mr A pan wrthododd dalu morgeisi neu fenthyciad y Cynghorydd ar gar, ei bod wedi gwrthwynebu ei geisiadau cynllunio ac nad oedd wedi datgan budd o ran ei chysylltiadau ag ef.

Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor a Heddlu Gogledd Cymru, gan gynnwys recordiadau o gyfweliadau'r Heddlu â'r Cynghorydd a Mr A.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth i gadarnhau honiadau Mr A, ac felly nid oedd tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili - Gwrthrychedd a phriodoldeb
Achos Rhif 201601317 - Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Medi 2016

Cwynodd Mr A y gallai aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ("y Cyngor") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad trwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol yn fwriadol i aelod o'r cyhoedd (Mr B). Cafwyd ac ystyriwyd gwybodaeth gan Mr A, y Cynghorydd, y Cyngor a thystion eraill. Hefyd cafodd Mr B ei gyfweld.

Canfu'r Ombwdsmon ei bod yn ymddangos bod yr wybodaeth a gafwyd gan Mr A yn achos o gamddealltwriaeth anfwriadol ac, ar y cyfan, nid oedd yn ymddangos bod y Cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol i Mr B ac felly nid oedd y Cod Ymddygiad wedi'i dorri.

Cyngor Cymuned Langstone – Anhunanoldeb a stiwardiaeth
Achos Rhif 201504048 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Medi 2016

Cwynodd Mr B y gallai aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Langstone ("y Cyngor") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau trwy honni ei fod wedi defnyddio'i ddylanwad fel cynghorydd a chyn blismon yn amhriodol i achosi i'r Heddlu ymweld â phreswylydd, Mr A, mewn ymdrech i'w "rybuddio" rhag dilyn ei gŵyn yn erbyn y Cynghorydd.

Cafodd Mr A a Mr B eu cyfweld a chafwyd gwybodaeth gan yr Heddlu a'r Cynghorydd.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y Cod wedi cael ei dorri gan y Cynghorydd. Roedd y Cynghorydd yn credu bod Mr A yn aflonyddu arno ef a'i deulu, ac nid oedd y dystiolaeth yn awgrymu ei fod wedi ceisio defnyddio ei statws fel cynghorydd neu fel cyn blismon i ddylanwadu ar y ffordd yr oedd yr Heddlu'n delio â'r mater. Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth bod y Cod wedi'i dorri.

Nid oes angen gweithredu

Cyngor Sir Ynys Môn – Atebolrwydd a gweithredu agored
Achos Rhif 201505105 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Gorffennaf 2016

Fe wnaed cwyn bod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Sir Ynys Môn, wedi torri'r Cod Ymddygiad gan ei fod wedi cymryd rhan mewn penderfyniad yng nghyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion ("y Pwyllgor") er bod ei nai yn byw yn ymyl y datblygiad dan drafodaeth.

Fe wnaeth yr ymchwiliad ystyried a oedd y Cynghorydd wedi torri paragraffau o'r Cod Ymddygiad oedd yn ymwneud â diddordebau personol a rhagfarnol.

Tra bod yr Ombwdsmon yn ystyried bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod drwy beidio â datgan diddordeb personol yng nghyfarfod y Pwyllgor, nid oedd yn ystyried, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, bod ganddo ddiddordeb a oedd yn rhagfarnu.

Canfyddiad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen gweithredu yng nghyswllt y materion yr ymchwiliwyd iddynt.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - Hybu cydraddoldeb a pharch
Achos Rhif 201503556 - Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Gorffennaf 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn bod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau pan alwodd aelod arall yn "scab" ar ddiwedd cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau ar 8 Ionawr 2015. Honnwyd fod y Cynghorydd wedi galw aelod yn "b****** scab" yn Ystafell Aelodau'r Cyngor tua wythnos yn ddiweddarach a'i bod wedi gwrthod ymddiheuro'n llawn am ei sylwadau.

Rheswm y Cynghorydd am wrthod ymddiheuro oedd am ei bod yn credu, yn niffyg unrhyw dystiolaeth o oddefeb a roddwyd i'r Aelod yn ystod streic y glowyr 1984-85, bod ei datganiad yn ffaith.

Cyflwynwyd tystiolaeth o oddefeb yr Aelod i'r Cynghorydd yn ystod yr ymchwiliad a chydnabuwyd felly ei fod yn anghywir i alw'r Aelod yn "scab" a dywedodd ei bod yn barod i ymddiheuro'n gyhoeddus iddo. Derbyniodd y Cynghorydd bod ei gweithredoedd wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Wrth ddod i'w gasgliad, roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod y Cynghorydd yn derbyn bod ei hymddygiad wedi torri'r Cod Ymarfer a'i bod wedi cynnig ymddiheuro am ei gweithredoedd. O ganlyniad i hyn daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad nad oedd ym mudd y cyhoedd i fynd â'r mater ymhellach, ac felly nid oedd angen gweithredu yn achos y materion yr ymchwiliwyd iddynt.

Cyngor Tref Cwmaman – Datgelu a chofrestru buddiannau
Achos Rhif 201504239 – Cyhoeddwyd yr adroddiad fis Awst 2016

Cwynodd Cynghorydd A y gallai aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Tref Cwmaman ("Cyngor y Dref") fod wedi torri'r Cod Ymddygiad ar ôl iddo fethu â datgan budd mewn cyfarfod o Gyngor y Dref ar 30 Medi 2015 yn achos cais cynllunio ("y cais") ac oherwydd ei ymddygiad ar ddiwedd y cyfarfod.

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i ganfod a oedd gan y Cynghorydd fudd yn y cais a oedd yn cael ei drafod ac a oedd wedi ymddwyn yn y fath ffordd ar ddiwedd y cyfarfod fel ei fod wedi dwyn anfri ar Gyngor y Dref ac y gellid ystyried ei ymddygiad yn amharchus.

Canfu'r Ombwdsmon y gallai ymddygiad y Cynghorydd fod wedi torri'r Cod. Fodd bynnag, daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad na fyddai ym mudd y cyhoedd i fynd â'r mater ymhellach. Casgliad yr Ombwdsmon oedd nad oedd angen gweithredu ar y materion yr ymchwiliwyd iddynt.

Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

Cyngor Cymuned Maenorbŷr - Datgelu a chofrestru buddiannau
Achos Rhif 201408960 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2016

Cwynodd perchennog Parc Carafanau fod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Cymuned Maenorbŷr ("y Cyngor") wedi cymryd rhan yn amhriodol mewn trafodaethau mewn cyfarfod lle penderfynwyd argymell bod yr awdurdod cynllunio lleol yn gwrthod cais cynllunio'n gysylltiedig â'r Parc Carafanau. Mae tŷ'r Cynghorydd yn agos at y Parc Carafanau ac roedd wedi cydnabod ei bod wedi gwneud nifer o gwynion am y busnes dros y blynyddoedd. Roedd y Cynghorydd yn derbyn bod ganddi fudd personol yn y mater, ond gwadodd bod ganddi fudd rhagfarnus a fyddai wedi ei hatal rhag bod yn gysylltiedig â'r penderfyniad.

Canfu'r Ombwdsmon, o ystyried pa mor agos oedd y busnes at gartref y Cynghorydd, a'r hanes o gwynion, ei bod yn debygol bod ganddi fudd rhagfarnus yn y cais cynllunio. Roedd felly o'r farn ei bod yn debygol bod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad. Argymhellodd y dylai ei adroddiad gael ei gyfeirio at Swyddog Monitro Cyngor Sir Penfro, i gael ei ystyried gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor.

Clywodd y Pwyllgor Safonau yr achos ar 20 Mai 2016. Canfu fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod Ymddygiad a chafodd ei gwahardd am ddau fis. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylai'r Cynghorydd gael hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad o fewn chwe mis.

Yn ddiweddarach apeliodd y Cynghorydd i Banel Dyfarnu Cymru yn erbyn y penderfyniad. Cytunodd y Panel fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod a chynyddodd hyd y gwaharddiad i dri mis.

Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.John@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk